**Eglwysi Bedyddiedig**

## CALFARIA, PENYGROES a PHENRHIWGOCH

•

*Cynhelir*

# Cyfarfodydd Sefydlu

## Y Parchedig H. Vincent Watkins

(Caersalem Newydd, Treboeth)

*yn Weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist yn yr Eglwysi uchod*

## NOS WENER, TACHWEDD 11, 1994

**am 7.00 o'r gloch yn Mhenrhiwgoch**

## DYDD SADWRN, TACHWEDD 12, 1994

**am 2.00 a 6.00 o'r gloch yng Nghalfaria**

•

*Estynnir i chwi wahoddiad cynnes*

Darperir lluniaeth i ymwelwyr

•

*Dros yr Eglwysi:*

ANDREW WILLIAMS, Ysgrifennydd Calfaria. Ffôn (0269) 845878
DENZIL HARRIES, Ysgrifennydd Penrhiwgoch. Ffôn (0267) 235967

# OEDFA BREGETHU

## Nos Wener, Tachwedd 11 ym Mhenrhiwgoch am 7.00

•

*Llywydd:*

Y Parchg. JOHN T. YOUNG, Llandeilo

•

*Galwad i Addoli:* Y Parchg. John T. Young.

*Emyn:* Coroni'r Iesu yn Ben (67 Ll.M.N.).

*Darllen:* Y Parchg. Leighton Thomas, Caersalem Newydd, Treboeth.

*Emyn:* O Arglwydd, dyro'n awr (236 Ll.M.N.).


*Gweddi:* Y Parchg. Tegfan Griffiths, Caersalem Newydd, Treboeth.

*Emyn:* Y mae hiraeth arnom, Arglwydd (458 Ll.M.N.)

*Pregeth:* Y Parchg. E.T. Sulwyn Jones, B.A., B.D.

*Emyn:* Cymer adain, fwyn Efengyl (595 Ll.M.N.).

*Y Fendith:* Y Parchg. G. Carey Jones, B.A., M.Phil., Porthyrhyd.



*Y Parchedig H. Vincent Watkins*

*Yr Urdd Weddi:* Y Parchg. G. Aled Jenkins, Felinganol, Newton a Blaenllyn.

*Emyn:* Rho Dy wyneb gyda'th gennad (Tôn: 'Tyddyn Llwyn').

*Pregeth:* Y Parchg. D. Islwyn Davies, M.A., Carmel, Pontlliw.

*Emyn:* Na Foed Cydweithwyr Duw (Tôn: 'Atgyfodiad').

*Y Fendith:* Y Parchg. D. Carl Williams, B.A., Hermon a Glandŵr, Abergwaun.

*Y Cyflwyno:*

Ar ran Caersalem Newydd, Treboeth: Miss Gwyneth Davies.

Ar ran Cymanfa Gorllewin Morgannwg: Mr. Eifion Lewis.

*Y Croesawu:*

Ar ran Calfaria: Mrs. M.A. Griffiths.

Ar ran Penrhiwgoch: Mr. Denzil Harries.

Ar ran Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion:
Y Parchg. Peter Thomas, B.A., B.Th., Aberystwyth.

Ar ran Eglwysi Penygroes: Y Parchg. Maldwyn John, Jerusalem.

*Emyn:* Diolch i Ti (Tôn: 'Diolch i Ti').

•

*Organyddes:*
Mrs. Pat Beynon

# CYFARFOD SEFYDLU

## Prynhawn Dydd Sadwrn am 2.00 o'r gloch yng Nghalfaria

•

*Llywydd:*
Y Parchg. J. Geraint Morse, B.D., M.Th.

•

*Galwad i Addoli:* Y Parchg. Alma Roberts, B.A., Capel Penygroes.

*Emyn:* Molwn Di, O Arglwydd (Tôn: 'Lilian').

*Darllen:* Y Brawd Phylip Rees, Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd.

*Gweddi:* Y Parchg. Ddr. D. Densil Morgan, Bangor.

*Gair gan y Llywydd.*

*Emyn:* O tyred i'n gwaredu Iesu da (Tôn: 'Bro Aber').

*Y Sefydlu:* Yng ngofal y Parchg. Milton Jenkins, Bethania, Aberteifi (Llywydd yr Undeb).

*Hanes yr Alwad:* Mr. Andrew Williams.

*Ateb yr Alwad:* Y Parchg. H. Vincent Watkins.

# EMYNAU'R CYFARFOD SEFYDLU

●

**EMYN** **Tôn: 'Lilian'**

Molwn Di, O! Arglwydd, Iôr Hollalluog,
Dengys bryniau eosol in dy gadernid mawr;
Yn dy ddawn i faddau, tyner a thrugarog,
Codi o'r dyfnder wnei drueiniaid llawr.

Cyfiawn, sanctaidd Arglwydd, ger bron dy burdeb,
Gŵylaidd yw y nefoedd yn ei sancteiddiaf fri;
Golau claer dy ŵyneb loywa dragwyddoldeb,
Mola'r holl nefoedd dy ogoniant Di.

Cofiwn, dirion Arglwydd, dy gydymdeimlad,
Dyma hafan dawel rhag storm, i eiddil gwan;
Tyr ar draeth ein heisiau, fôr dy ryfedd gariad,
Dafnau daioni a eneinia'r lan.

Tyrd, O! Arglwydd grasol, tyrd i'n calonnau,
Tyn o dannau'n bywyd glod i'th ryfeddol ddawn;
Moliant pawb fo iti drwy'r holl genedlaethau,
Uned i'th ganmol nef a daear lawn.

*Cernyw, diw.*

**EMYN** **Tôn: 'Bro Aber'**

O! tyred i'n gwaredu, Iesu da,
  Fel cynt y daethost ar dy newydd wedd,
A'r drysau 'nghau, at rai dan ofnus bla,
  A'u cadarnhau â nerthol air dy hedd:
Llefara dy dangnefedd yma'n awr,
A dangos inni greithiau d'aberth mawr.

Yn d'aberth di mae'n gobaith ni o hyd,
  Ni ddaw o'r ddaear ond llonyddwch brau;
O hen gaethiwed barn rhyfeloedd byd,
  Hiraethwn am y cymod sy'n rhyddhau:
Tydi, Gyfryngwr byw rhwng Duw a dyn,
Rho yn ein calon ras i fyw'n gytûn.

Cyd-fyw'n gytûn fel brodyr fyddo'n rhan,
  A'th gariad yn ein cynnal drwy ein hoes;
Na foed i'r arfog cry' orthrymu'r gwan,
  Ac na bo grym i ni ond grym y groes:
Rhag gwae a dilyw tân, O! trugarha,
A thyred i'n gwaredu, Iesu da.

*John Roberts*

# CYFARFOD PREGETHU

**Nos Sadwrn, Tachwedd 12, am 6.00 o'r gloch yng Nghalfaria**

•

*Llywydd:*
Y Parchg. H. Vincent Watkins

•

*Galwad i Addoli:* Y Parchg. D. Islwyn Beynon, Carmel.

*Emyn:* Molwch yr Arglwydd (Tôn: 'Hengoed').

*Darllen:* Y Parchg. Eurof Richards, Seion Newydd, Treforys.

*Emyn:* O rho Dy fendith (Tôn: 'Ellacombe').

*Gweddi:* Y Parchg. Wynn Vittle, Aberduar.

*Emyn:* Fy Arglwydd Dduw (Tôn: 'Mor fawr wyt Ti').

*Pregeth:* Y Parchg. Alun J. Petty, Baglan.

*Emyn:* Crist a orchfygodd (Tôn: 'Macabeus').

*Y Fendith:* Y Parchg. T. Elwyn Williams, Felinfoel.

•

*Organyddes:*
Mrs. Lynwen Thomas

# EMYNAU'R CYFARFOD PREGETHU

•

**EMYN** **Tôn: 'Hengoed'**

Cenwch i'r Arglwydd,
Cenwch i'r Arglwydd,
Iôr ein hymwared ni yw;
Aed yn beraidd hyd y nef
Aberth moliant iddo Ef:
Bendigedig fo'r Arglwydd, ein Duw.

Moeswch i'r Arglwydd,
Moeswch i'r Arglwydd,
Moeswch ogoniant a nerth;
O'u caethiwed, rhoed yn rhydd
Fyrdd o etifeddion ffydd:
Mawl i enw Preswylydd y berth!

Molwch yr Arglwydd,
Molwch yr Arglwydd,
Molwch yr Arglwydd, ei saint;
Wrth ffynhonnau'r dyfroedd byw,
Gorfoledded meibion Duw,
Byddant hyfryd, yng ngwynfyd eu braint

Dychwel i'w Seion,
Dychwel i'w Seion
Dyrfa aneirif, ryw ddydd;
Bydd llawenydd ar eu pen;
Ac o flaen yr orsedd wen,
Haleliwia dragwyddol a fydd.

*Gwili*

**EMYN** **Tôn: 'Ellacombe'**

O! rho fy fendith, Nefol Dad,
Ar holl genhedloedd byd,
I ddifa'r ofnau ym mhob gwlad
Sy'n tarfu hedd o hyd.
Rhag dial gwyllt, rhag dyfais dyn,
Mewn cariad cadw ni,
A dyro inni'r ffydd a lŷn,
Wrth dy gyfiawnder Di.

Rho i wirionedd heol glir
Drwy ddryswch blin yr oes,
A chluded ffyrdd y môr a'r tir
Ddatguddiad gwell o'r Groes.
Rhag troi y byd yn anial gwyw,
Rhag llygru nwyd a greddf,
Rho inni'r ddawn i fentro byw
A chariad inni'n ddeddf.

Rho inni fyd heb boen a phla,
Heb ing ymrafael trist,
Cynydded rhin ewyllys da
Disgyblion Iesu Grist
Rhag gwasgar mwy dy deulu Di,
A chwalu'r byd â chas,
Cysegra ein brawdgarwch ni
Â holl ddoethineb gras.

*Llwyd*

**EMYN** **Tôn: 'Tyddyn Llwyn'**

Rho dy ŵyneb gyda'th gennad,
  Arglwydd gweision yr holl fyd;
Boed ei feddwl ar dy gariad,
  Boed dy Air yn llenwi'i fryd;
    Rho d'arweiniad
  Iddo ef a'r praidd ynghyd.

Heb dy allu bydd yn egwan,
  Heb d'oleuni, crwydro bydd;
Iddo rho dy gyngor cyfan,
  Gad i'r seliau ddod yn rhydd;
    Iesu'i Hunan
  Fyddo'i destun nos a dydd.

Cadw'i olwg ar Galfaria,
  A'i deimladau 'ngwres y Groes;
Gad i'w feddwl dawel wledda
  Ar haeddiannau marwol loes:
    Dweud am noddfa
  Fyddo pleser penna'i oes.

*Penar*

**EMYN** **Tôn: 'Atgyfodiad'**

Na foed cydweithwyr Duw
  Byth yn eu gwaith yn drist,
Wrth ddwyn y meini byw
  I'w dodi'n nhemel Crist:
Llawenydd sydd, llawenydd fydd
I bawb sy'n gweithio 'ngolau ffydd.

Mae gweithwyr gorau'r ne'
  Yn marw yn eu gwaith;
Ar gyfer gweithwyr Duw
  Ar hyd yr oesoedd maith;
A ffyddlon i'w addewid fry
Yw'r Hwn a fu'n sylfaenu'r tŷ.

Mae Iesu eto'n fyw,
  A'r gwaith sydd dan ei law:
Ar gyfer gweithwyr Duw
  Mae bendith oesau ddaw:
Llawenydd mawr ynghyd a gawn
Ryw ddydd, wrth weld y tŷ yn llawn.

*Elfed*

**EMYN** **Tôn: 'Diolch i Ti'**

Diolch i Ti, yr Hollalluog Dduw,
  Am yr Efengyl sanctaidd,
    Haleliwia, Amen.

Pan oeddem ni mewn carchar tywyll du,
  Rhoist in oleuni nefol.
    Haleliwia, Amen.

O! aed, O! aed yr hyfryd wawr ar led!
  Goleued ddaear lydan!
    Haleliwia, Amen.

*c. D.C.*

## CYN-WEINIDOGION CALFARIA

| | |
|---|---|
| Y Parchg. Job Herbert ........................................ | 1896-1941 |
| Y Parchg. Handel Turner .................................... | 1942-1946 |
| Y Parchg. E. Bryn Jones, B.A., B.D. .................... | 1947-1955 |
| Y Parchg. T. Elwyn Williams ............................... | 1957-1963 |
| Y Parchg. Wynn Vittle ........................................ | 1964-1973 |
| Y Parchg. D. Carl Williams, B.A. ......................... | 1974-1982 |
| Y Parchg. Ddr. D. Densil Morgan ......................... | 1982-1988 |
| Y Parchg. J. Geraint Morse, B.D., M.Th. ............. | 1989-1994 |

•

## CYN-WEINIDOGION PENRHIWGOCH

| | |
|---|---|
| Y Parchg. Job Herbert ........................................ | 1900-1941 |
| Y Parchg. Handel Turner .................................... | 1942-1946 |
| Y Parchg. Idwal Llewellyn .................................. | 1947-1963 |
| Y Parchg. Meurig Thomas .................................. | 1964-1967 |
| Y Parchg. Wynn Vittle ........................................ | 1967-1973 |
| Y Parchg. D. Carl Williams, B.A. ......................... | 1974-1982 |
| Y Parchg. Ddr. D. Densil Morgan ......................... | 1982-1988 |
| Y Parchg. J. Geraint Morse, B.D., M.Th. ............. | 1989-1994 |

**EMYN** **Tôn: 'Mor fawr wyt Ti'**

Fy Arglwydd Dduw, daw im barchedig ofon
  Wrth feddwl am holl waith dy ddwylo di,
Yng nghân y sêr a rhu y daran ddofon,
  Trwy'r cread oll, dy rym a welaf i.
    *Cytgan:*
    Cân, f'enaid, cân—fy Arglwydd Dduw i ti,
    Mor fawr wyt ti, mor fawr wyt ti;
    Cân, fenaid, cân—fy Arglwydd Dduw i ti,
    Mor fawr wyt ti, mor fawr wyt ti.

Wrth fynd am dro trwy'r glennydd teg a'r dolydd,
  A gwrando cân yr adar yn y gwŷdd,
A bwrw trem o gopa uchel fynydd,
  Yn sŵn y nant neu falm yr awel rydd:
    *Cytgan:*

Pan ddaw i'm cof i Dduw roi'i Fab heb arbed,
  A'i roi yn Iawn—tu hwnt i ddeall dyn,
Ar groes o'i fodd yn dwyn fy maich i'm gwared,
  I faddau 'mai rhoes ef ei waed ei hun:
    *Cytgan:*

Pan ddêl y Crist â bloedd y fuddugoliaeth,
  A'm dwyn i dref, mor llawen fyddaf i;
Ymgrymu yno wnaf mewn parchedigaeth,
  Gan ddatgan byth—fy Nuw, mor fawr wyt ti.
    *Cytgan:*

*O'r Swedeg, cyf. Stuart K. Hine ac E.H. Griffiths*

**EMYN** **Tôn: 'Macabeus'**

Crist a orchfygodd fore'r trydydd dydd,
Cododd ein Gwaredwr, daeth o'r rhwymau'n rhydd.
Gwisgoedd ei ogoniant sydd yn ddisglair iawn,
Wedi gweld ei harddwch ninnau lawenhawn.
  Crist a orchfygodd fore'r trydydd dydd,
  Cododd ein Gwaredwr daeth o'r rhwymau'n rhydd.

Daw Ef i'n cyfarch gyda thoriad gwawr,
Gwasgar ein hamheuon, lladd ein hofnau mawr.
Cryfach fyddwn ninnau yn ei gwmni Ef,
Rhodiwn yn hyderus ar ein ffordd i'r nef.
  Crist a orchfygodd fore'r trydydd dydd,
  Cododd ein Gwaredwr, daeth o'r rhwymau'n rhydd.

Ni yw ei dystion, awn ymlaen a'i waith,
Gan gyhoeddi'i enw ym mhob gwlad ac iaith.
Gobaith sydd yn Iesu i'r holl ddynol-ryw,
Concrwr byd a'i bechod, y pencampwr yw.
  Crist a orchfygodd fore'r trydydd dydd,
  Cododd ein Gwaredwr, daeth o'r rhwymau'n rhydd.

*E.L. Budry (efel. O.M. Lloyd)*

Gwasg John Penri
11 Heol Sant Helen, Abertawe SA1 4AL     Ffôn: 0792-652092